



Ystadegau cydraddoldeb Bwletin ymchwil

Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol

Rhifyn 11
Ebrill 2022



Cysylltwch â ni

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau sut gallwn wella'r bwletin hwn, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni.

Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol
Bodlondeb,
Conwy, LL32 8DU.
E-bost: uned.ymchwil@conwy.gov.uk

Ffôn: 01492 576246

Diweddraf nesaf – Ebrill 2023

Ystadegau cydraddoldeb – bwletin ymchwil blynyddol

Cynnwys	
Ystadegau allweddol	2
Cyflwyniad	3
Bylchau data	3
Effaith Covid-19 ar ddata monitro cydraddoldeb	4
Rhan 1: oedran	5
Amcangyfrifon poblogaeth	5
Rhan 2: anabledd	8
Salwch hir dymor cyfyngol	8
Anabledd	9
Gofalwyr	10
Rhan 3: hunaniaeth o ran rhywedd ac ailbennu rhywedd	11
Rhan 4: priodas a phartneriaeth sifil	12
Statws priodasol	12
Rhan 5: beichiogrwydd a mamolaeth	13
Beichiogi	13
Mamolaethau, genedigaethau a ffrwythlondeb	13
Rhan 6: ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol	15
Ethnigrwydd	15
Ethnigrwydd mewn ysgolion	15
Hunaniaeth genedlaethol	16
Rhan 7: crefydd / credo	19
Crefydd	19
Rhan 8: rhyw	20
Amcangyfrifon poblogaeth	20
Cymarebau gwyrw:benyw	20
Genedigaethau, marwolaethau a disgwyliad oes	21
Rhan 9: cyfeiriadedd rhywiol	22
Hunaniaeth rywiol	22
Rhan 10: yr iaith Gymraeg	23
Gallu Cymraeg	23
Cymraeg mewn ysgolion	25
Rhan 11: ystadegau cydraddoldeb is-ardaloedd Bwrdeistref Sirol Conwy	27
Rhan 12: ystadegau cydraddoldeb ar gyfer ardaloedd cymharol	29

Ystadegau allweddol

Grŵp cydraddoldeb	Disgrifiad	CBS Conwy	Cymru	Cyfeirnod poblogaeth	Ffynhonnell a dyddiad
Oedran	0-15	16.0%	17.8%	Pob person	Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020, Swyddfa Ystadegau Gwladol
	16-64	56.2%	61.2%		
	65+	27.9%	21.1%		
	85+	4.4%	2.7%		
Anabledd	Salwch hir dymor cyfyngol	24.3%	23.7%	Pob person	Cyfrifiad 2011
	Anabledd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio		24.9%	Oedran gwaith	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2021
Statws priodasol a phartneriaeth sifil	Sengl	28.9%	33.5%	Pob person oedran 16+	Cyfrifiad 2011
	Priod	48.3%	46.6%		
	Partneriaeth sifil	0.2%	0.2%		
	Wedi gwahanu	2.3%	2.2%		
	Wedi ysgaru	10.6%	9.7%		
	Yn weddw	9.7%	7.9%		
Beichiogrwydd a mamolaeth	Beichiogi	75.3	66.6	Cyfradd y mil menyw o oedran 15-44	Data genedigaethau 2020, ONS
	Genedigaethau	56.7	50.9		
Ethnigrwydd	Gwyn Prydeinig	95.4%	93.2%	Pob person	Cyfrifiad 2011
	Ddim yn wyn	2.4%	4.8%	Pob person	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2021
	Gwladolion gwyn UK		92.5%		
	Ddim yn wyn		4.9%		
Hunaniaeth genedlaethol	Anwyd yng Nghymru	54.4%	72.7%	Pob person	Cyfrifiad 2011
Crefydd / credo	Cristnogaeth	64.7%	57.6%	Pob person	Cyfrifiad 2011
		26.1%	32.1%		
Rhyw	Gwryw	48.7%	49.3%	Pob person	Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020, Swyddfa Ystadegau Gwladol
	Benyw	51.3%	50.7%		
Cyfeiriadedd rhywiol	Heterorywiol		94.4%	Pob person oedran 16+	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2019
	Hoyw / lesbiaidd / deurywiol		2.9%		
Yr iaith Gymraeg	Siaradwyr Cymraeg	27.4%	19.0%	Pob person oedran 3+	Cyfrifiad 2011
	Dim gwybodaeth am Gymraeg	60.6%	73.3%		
	Siaradwyr Cymraeg		29.5%	Pob person oedran 3+	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2021

Sylwer: Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn llunio ffigurau ar lefel BS Conwy, ond oherwydd maint cyfyngedig y sampl, nid ydynt yn cael eu hystyried yn ffynhonnell ddata gadarn ar y lefel hon. Felly, ni argymhellir eu defnyddio ar lefel BS Conwy ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y bwletin hwn. Mae ffigurau Cymru wedi cael eu cynnwys gan y credir eu bod yn gadarn.

Cyflwyniad

Hwn yw'r adroddiad monitro diweddaraf mewn cyfres a fydd yn cael ei gynhyrchu'n flynyddol gan Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol y Cyngor. Mae'r monitor yn edrych ar ddangosyddion cydraddoldeb allweddol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy, yn cyflwyno'r data diweddaraf a darparu rhai sylwadau ar beth mae'r data yn ei ddangos. Mae'n canolbwyntio ar y nodweddion gwarchoddedig a ddisgrifir yn Neddff Cydraddoldeb 2010, a hefyd yn cynnwys ystadegau ynghylch yr iaith Gymraeg. Bydd ffynonellau data newydd yn cael eu hychwanegu at y monitor fel y dânt ar gael.

Mae dyfnder y dadansoddiad data yn cynrychioli lefel y data dibynadwy sydd ar gael, nid pwysigrwydd y testun. Defnyddir y bwletin i gefnogi asesiadau effaith cydraddoldeb / asesiadau effaith integredig y Cyngor.

Bylchau data

- Does dim ffynhonnell gynhwysfawr o ddata am anabledd. Mae Cyfrifiad 2011 yn darparu gwybodaeth ar salwch tymor hir cyfyngedig a gofalwyr di-dâl ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae yna gofrestr o bobl gyda nam corfforol a/neu synhwyrdd a phobl gydag anableddau dysgu sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol, ond gwybodaeth am y bobl hynny sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor yn unig mae hwn yn ei ddal.
- Does dim data ar gael am bobl sy'n drawsrywiol ar lefel awdurdod unedol na chenedlaethol.
- Cyfrifiad 2011 ydi'r unig ffynhonnell ddata am dadogaeth grefyddol, statws priodol a hunaniaeth genedlaethol ym Mwrdeistref Sirol Conwy.
- Mae data ynghylch beichiogrwydd a mamolaeth yn gyfyngedig i ddata beichiogi a genedigaethau.
- Cyfrifiad 2011 ydi'r data mwyaf dibynadwy ar gyfer ffigyrau ethnigrwydd am boblogaeth gyfan Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae ffigyrau mwy diweddar ar gael ar lefel Cymru gyfan. Mae Cyfrifiad yr Ysgol yn darparu data ethnigrwydd mwy diweddar ar gyfer disgyblion ysgol yn unig.
- Nid yw data ynghylch tueddfryd rhywiol ar gael ar lefel awdurdod unedig, ac mae'r data cenedlaethol yn cael ei ystyried i fod yn dan gyfrifiad o dueddfryd arall i heterorywiol.
- Mae gan Gyfrifiad 2011 ddata manwl ar yr iaith Gymraeg. Mae'n darparu data am sgiliau iaith Gymraeg, a dadansoddiad o siaradwyr Cymraeg yn ôl oed, cenedl a daearyddiaeth. Mae Cyfrifiad yr Ysgol yn darparu data am ddisgyblion ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac am ddisgyblion ym mhob ysgol sy'n siarad Cymraeg.

Effaith Covid-19 ar ddata monitro cydraddoldeb

Mae hi dal yn rhy gynnar i wybod sut y bydd Covid-19 yn dylanwadu ar ddeinameg y boblogaeth a'r effeithiau o ganlyniad i hyn. Nid oes data dibynadwy ar gael eto ac mae'n bosib na fydd rhai o'n dangosyddion allweddol ar gael tan 2023 ar y cynharaf – mae data mudo mewnol fel arfer ar ei hol hi, o 12 mis er enghraifft, ac nid tan y byddwn yn gweld amcangyfrifon poblogaeth 2021 (ar hyn o bryd disgwylir iddo gael ei ryddhau yn hydref 2022) yn byddwn yn dechrau gweld beth ddigwyddodd i'r llif yn y boblogaeth yn haf a hydref 2020.

Hyd yn oed wedyn, ni allwn ddibynnu ar ddata o 2020/21 i'n helpu ni fodelu'r dyfodol tymor canolig gan na fyddwn yn gwybod beth fydd y newidiadau ymddygiadol yn debygol o fod yn y tymor hir, a pha rai sydd ond yn wyriad dros dro yn y llwybr cyn dychwelyd i batrymau cyn y pandemig. Felly mae'n well bod yn ystyriol ond eto'n ofalus wrth geisio cynllunio ar gyfer y dyfodol ar ôl Covid.

Mae pandemig Covid-19 hefyd wedi golygu fod rhai ffynonellau data allweddol heb eu casglu ac/neu eu hadrodd arnynt am eu bod wedi digwydd cyn Mawrth 2020 (Llywodraeth Cymru yn casglu data ar gofrestrau anableddau er enghraifft, neu'r Cyngor yn adrodd ar gyfrifiad ysgol). Mae ffynonellau data wedi eu heffeithio dros dro gan newidiadau mewn deddfwriaeth neu newidiadau mewn ymddygiad. Mae'r amhariadau angen cael eu hystyried wrth ddehongli'r data yn y bwletin hwn.

Rhan 1: oedran

Amcangyfrifon poblogaeth

Oedran canolrifol (yr oed ble mae hanner y boblogaeth yn hŷn ac mae'r hanner arall yn iau) poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yw 50.0 oed. Oedran canolrifol Cymru ar hyn o bryd yw 42.4 a 40.4 ar gyfer y DU. Mae hyn yn golygu bod ein poblogaeth yn sylweddol hŷn nag un Cymru a'r DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r oedran canolrifol wedi cynyddu o 46.6 i 50.0 oed yn ystod y degawd diwethaf.

Cynhyrchir data poblogaeth, sy'n cynnwys dadansoddiad oedran, bob blwyddyn ac mae ar gael ar lefel ardal fach. Mae'n bosibl defnyddio'r data hwn yn eang fel enwadur ar gyfer sawl dangosydd, gan ei fod yn ystadegyn cenedlaethol cadarn.

Tabl 1.1: poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy, Cymru a'r DU (2020)

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

	BS Conwy		Cymru	Y DU
	Nifer	%	%	%
Pob oedran	118,200		3,169,600	67,081,250
0-15	18,850	16.0%	17.8%	19.0%
16-64	66,400	56.2%	61.2%	62.4%
65+	32,950	27.9%	21.1%	18.6%
85+	5,150	4.4%	2.7%	2.5%

Tabl 1.2: oedran canolrif a chymarebau dibyniaeth (2020)

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

	BS Conwy	Cymru	Y DU
Oedran canolrif	50.0	42.4	40.4
Cymhareb dibyniaeth	78.0	63.5	60.3
Cymhareb dibyniaeth henaint	49.6	34.5	29.9

Diffiniadau

Oedran canolrif – yr oed lle mae hanner y boblogaeth yn hŷn a hanner yn iau.

Cymhareb dibyniaeth – nifer y bobl yn y boblogaeth sydd ddim o oedran gweithio ar gyfer bob 100 o bobl sydd mewn oed gweithio. Diffinir poblogaeth oedran gwaith fel unigolion 16 i 64 oed.

Cymhareb dibyniaeth henaint – nifer y bobl yn y boblogaeth sydd 65+ oed ar gyfer bob 100 o bobl sydd mewn oed gweithio. Diffinir poblogaeth oedran gwaith fel unigolion 16 i 64 oed.

Mae 16.0% o'r boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy o dan 16 oed ac yn cymharu â 17.8% yng Nghymru gyfan a 19.0% ar draws y DU.

Yn 2020, roedd 66,400 o bobl oedran gweithio (16-64) ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae hyn yn gwneud 56.2% o'r boblogaeth, o'i gymharu â 61.2% yng Nghymru a 62.4% ym Mhrydain Fawr. Caiff y nifer y bobl yn y grŵp poblogaeth oed gweithio yn y

Fwrdeistref Sirol ei effeithio'n arbennig gan allfudiad oedolion ifanc yn y grŵp oed 18-24.

Mae cyfran y bobl o oedran gweithio yn BS Conwy yn gymharol isel, ac yn arwain at gymhareb ddibyniaeth uchel – hynny yw, cymhareb y bobl oedran gweithio i unigolion sy'n 'ddibynol' yn theoretig ar y boblogaeth oedran gwaith. Yn 2020 cymhareb ddibyniaeth CBS Conwy oedd 100:78.0. Yng Nghymru roedd yn 100:63.5 (cymhareb y DU yw 100:60.3). Gall cymhareb ddibyniaeth uchel roi straen ar yr economi leol ac ar yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gofal cymdeithasol.

Tabl 1.2: poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (2020)

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

	Gwryw	Benyw	Personau
Pob oedran	57,600	60,600	118,200
0-4	2,750	2,500	5,250
5-9	3,150	3,000	6,150
10-14	3,200	3,100	6,300
15-19	3,000	2,750	5,700
20-24	3,000	2,650	5,600
25-29	3,000	2,850	5,800
30-34	3,000	2,950	5,950
35-39	2,850	3,050	5,900
40-44	2,850	2,850	5,650
45-49	3,300	3,600	6,900
50-54	4,000	4,400	8,400
55-59	4,350	4,750	9,150
60-64	4,100	4,450	8,550
65-69	3,850	4,250	8,100
70-74	4,250	4,450	8,700
75-79	3,050	3,300	6,350
80-84	2,000	2,600	4,600
85-89	1,250	1,800	3,050
90+	700	1,450	2,100
0-15	9,750	9,100	18,850
16-64	32,800	33,600	66,400
65+	15,100	17,850	32,950
85+	1,900	3,250	5,150

Roedd 32,950 o bobl 65 oed a hŷn ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn 2020. Mae 27.9% o'r boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn 65 oed â hŷn ac yn cymharu â 21.1% yng

Nghymru gyfan a 18.6% ar draws y DU. Deuir o hyd i gyfrannau uchel tebyg o boblogaeth oedran ymddeol mewn ardaloedd y gwyddys eu bod lleoliadau ymddeol yn unig, fel arfordir de-orllewin Lloegr. Mae'r gyfran uchel o henoed yn ein poblogaeth hefyd yn arwain at y cyfrannau sylweddol is o blant (0-15 oed) a thrigolion o oed gweithio (16-64 oed) na chyfartaleddau Cymru a'r DU. Mae'r gyfran fawr o bobl dros 65 oed yn bennaf yn sgil dau ffactor; yn gyntaf mae gwelliannau mewn cyfraddau marwolaeth yn golygu pobl yn byw yn hirach; ac yn ail bod y genhedlaeth a gafodd eu geni yn y cohort 'baby boom' mawr ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn heneiddio.

Caiff pobl oedrannus iawn eu diffinio fel y rheiny yn y boblogaeth sydd yn 85 oed a hŷn (hefyd wedi eu cynnwys yn y 65+). Roedd 5,150 o bobl 85 oed a hŷn yn y Fwrdeistref Sirol yn 2020. Mae 4.4% o'r boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn 85 oed a hŷn i'w gymharu â 2.7% yng Nghymru gyfan a 2.5% ar draws y DU.

Mae'r Bwletin Poblogaeth a luniwyd gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol yn darparu mwy o fanylion ar ddadansoddiad oed.

Rhan 2: anabledd

Ychydig o ffynonellau data sydd yna sy'n rhoi gwybodaeth gywir a dibynadwy am nifer y bobl ag anableddau, yn rhannol oherwydd nad oes diffiniad clir o'r hyn mae 'anabledd' yn ei olygu. Am y rheswm hwn, defnyddir mesurau dirprwyol i ddarparu dangosyddion. Nid yw'r Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol felly, yn argymhell un ffynhonnell o ddata ar gyfer anabledd, gan fod i bob ffynhonnell ei defnydd mewn amgylchiadau penodol. Rydym yn argymhell eich bod yn cysylltu â ni i drafod y ffynhonnell fwyaf priodol.

Salwch hir dymor cyfyngol

Defnyddir data salwch hir dymor cyfyngol o Gyfrifiad 2011 yn gyffredinol i roi amcangyfrif o anabledd. Mae'r term 'salwch hir dymor cyfyngol' yn cynnwys hunan-asesiad o p'un ai peidio oes gan rywun salwch tymor hir cyfyngol, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau dyddiol neu'r gwaith y gallant ei wneud, gan gynnwys problemau sydd dod yn sgil henaint.

Mae cyfyngiadau wrth ddefnyddio'r set ddata hon: mae'n diffinio ei hun ac felly gall rhai pobl fod ar goll ohoni.

Mae'r gyfran o'r holl drigolion ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n nodi bod ganddynt salwch hir dymor cyfyngol yn debyg i ffigur Cymru. Yn y grŵp oedran 65 +, mae canran is na chanran Cymru gyfan.

Tabl 2.1: salwch hir dymor cyfyngol ac oed (2011)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS301EW

	Bwrdeistref Sirol Conwy		Cymru	Cymru a Lloegr
	Nifer	%	%	%
Pob person	115,228		3,063,456	56,075,912
Gweithgareddau dydd i ddydd yn gyfyngedig iawn	13,896	12.1%	11.9%	8.5%
Gweithgareddau dydd i ddydd ychydig yn gyfyngedig	14,019	12.2%	10.8%	9.4%
Gweithgareddau dydd i ddydd ddim yn gyfyngedig	87,313	75.8%	77.3%	82.1%
16 i 64 oed	67,940			
Gweithgareddau dydd i ddydd yn gyfyngedig iawn	5,209	7.7%	8.3%	5.8%
Gweithgareddau dydd i ddydd ychydig yn gyfyngedig	5,982	8.8%	8.6%	7.2%
Gweithgareddau dydd i ddydd ddim yn gyfyngedig	56,749	83.5%	83.1%	87.0%

Anabledd

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) yn cynnwys ffigurau anabledd, ond fel nodwyd eisoes, nid yw data o'r arolwg hwn yn gadarn ar lefel awdurdod lleol, oherwydd maint y sampl. Yn ôl APS 2021 roedd 24.9% o bobl oedran gweithio yng Nghymru yn anabl at lefel a fyddai'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.

Tabl 2.2: unigolion gyda anableddau dysgu, synhwyrdd a/neu corfforol ym Mwrdeistref Sirol Conwy (2018/19)

Ffynhonnell: cofrestr o unigolion anabledd corfforol/ synhwyrdd; cofrestr o unigolion gydag anableddau dysgu, gwasanaethau cymdeithasol personol, Llywodraeth Cymru

	BS Conwy		Cymru
	Nifer	%	%
Pob person (2018)	117,200		3,138,650
Nam gweld a / neu fyddar, a / neu anabledd corfforol	279	0.2%	0.4%
Anabledd corfforol yn unig	49	0.0%	0.3%
Byddar a thrwm eu clyw yn unig	6,371	5.4%	0.9%
Cyfanswm lleoliadau o unigolion gydag anableddau dysgu	620	0.5%	0.4%
Cyfanswm gydag unrhyw anabledd	7,319	6.2%	2.1%

Sylwer: mae'r ffigurau hyn yn dangyfrifiad o bobl gydag anableddau.

Cafodd diweddariadau 2019/20 a 2020/21 ar gyfer y set ddata yma ei oedi oherwydd pandemig Covid-19 ac nid oedd ar gael pan gyhoeddwyd y bwletin hwn.

Mae awdurdodau unedol yng Nghymru yn cadw cofrestr o gleientiaid gwasanaethau cymdeithasol gydag anableddau dysgu, corfforol neu synhwyrdd. Fodd bynnag, gan mai dim ond pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau sydd ar y cofrestr, maent yn dangyfrifiad o bobl gydag anableddau. Mae'r tabl isod yn dangos y data diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer BS Conwy.

Tabl 2.3: Pobl sy'n derbyn taliadau budd-dal Lwfans Byw i'r Anabl neu Taliad Annibyniaeth Bersonol, Awst 2021

Ffynhonnell: DWP benefits data, NOMIS & Stat-Xplore

	BS Conwy		Cymru	PF
	Nifer	fel % grŵp oedran	fel % grŵp oedran	fel % grŵp oedran
Pob person	14,617	12.4%	12.0%	8.6%
O dan 16 oed	1,062	5.6%	4.9%	4.6%
16-66 oed	5,681	8.2%	8.4%	6.2%
67+ oed	7,874	26.5%	30.9%	22.7%

Sylwer: mae'r ffigurau hyn yn dangyfrifiad o bobl gydag anableddau.

Mae rhywfaint o wybodaeth hefyd ar gael drwy ddata budd-daliadau Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) am bobl sy'n derbyn budd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl, Taliad Annibyniaeth Bersonol neu Lwfans Gweini I.

Nid yw hwn yn gyfrif cyflawn o'r holl bobl sydd ag anableddau gan na fydd pawb yn hawlio budd-daliadau (er enghraifft, os ydynt yn gweithio), ac efallai na fydd gan rai pobl sydd yn anabl hawl i dderbyn taliadau. Mae'r data yma ar gael yn ôl prif reswm dros hawlio a hyd y cais, yn ogystal ag yn ôl grŵp oedran.

Er nad yw'n fesuriad o anabledd, mae data hefyd ar gael am bobl sydd â hawl i gael budd-daliadau allan-o-waith oherwydd rhesymau meddygol neu analluogrwydd (Lwfans Cefnogaeth Cyflogaeth neu Fudd-daliadau Analluogrwydd). Ym mis Awst 2020, y ffigur ar gyfer BS Conwy oedd 4,133 o hawlwr. Mae dadansoddiad o'r ffigur hwn yn ôl rheswm meddygol dros hawlio ar gael wrth ofyn.

Nid yw'n bosibl eto gallu defnyddio'r ystadegau a gyhoeddwyd ar gyfer Credyd Cynhwysol i nodi hawlwr sydd â hawl i gael budd-daliadau allan-o-waith oherwydd rhesymau meddygol neu analluogrwydd, ond bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hychwanegu i'w bwletin hwn pan fydd ar gael.

Gofalwyr

Wrth edrych ar y ffigurau ar gyfer anabledd a salwch cyfyngol tymor hir, mae'n ddefnyddiol i edrych ar y ddarpariaeth o ofal di-dâl. Y ffynhonnell ddata orau ar gyfer hyn yw Cyfrifiad 2011. Mae'n diffinio 'gofal di-dâl' fel unrhyw gymorth di-dâl, yn gofalu am neu gynorthwyo aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd salwch hir dymor corfforol neu meddyliol neu anabledd neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint. Ym Mwrdeistref Sirol Conwy, mae dros 13,605 o ofalwyr di-dâl.

Tabl 2.4: gofalwyr di-dâl (2011)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS301EW

	Bwrdeistref Sirol Conwy		Cymru	Cymru a Lloegr
	Nifer	%	%	%
Pob person mewn aelwydydd*	107,247		3,063,456	56,075,912
Yn darparu dim gofal	101,623	88.2%	87.9%	89.7%
Yn darparu 1 i 19 awr o ofal	7,813	6.8%	6.9%	6.5%
Yn darparu 20 i 49 awr o ofal	1,814	1.6%	1.8%	1.4%
Yn darparu 50+ awr o ofal	3,978	3.5%	3.4%	2.4%

*nid yw'n cynnwys pobl yn byw mewn sefydliadau cymunedol

Rhan 3: hunaniaeth o ran rhywedd ac ailbennu rhywedd

Does dim data am bobl sy'n drawsrywiol ar gael ar hyn o bryd ar lefel awdurdod unedol na chenedlaethol. Ni ellir darparu ffigur o ffynhonnell weinyddol chwaith.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn bwriadu nodi'r opsiynau ar gyfer diwallu gofynion y defnyddiwr ar gyfer data a gwneud argymhellion ynghylch sut i fynd â gwaith yn ei flaen ar hunaniaeth o ran rhywedd ar draws ONS. Fodd bynnag mae problemau derbynoldeb cyhoeddus mewn perthynas â gofyn cwestiwn ar y mater hwn. Mae pryderon preifatrwydd yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun hunaniaeth rhywedd oherwydd nad oes rhaid i'r rheiny sydd wedi newid eu rhyw yn gyfreithlon o'r hyn a nodwyd pan gawsant eu geni yn gorfod datgelu eu hanes rhywedd. Gyda budd-ddeiliaid, bydd yr ONS yn ystyried effaith hyn ar ansawdd unrhyw ddata y gellid ei gasglu ac a fyddai effeithiau positif casglu data yn fwy na'r effeithiau negyddol.

Rhan 4: priodas a phartneriaeth sifil

Statws priodasol

Mae'r unig wybodaeth gynhwysfawr sydd gennym ar statws priodasol a phartneriaeth sifil ar lefel y Fwrdeistref Sirol yn dod o Gyfrifiad 2011. Mae'r data hwn bellach yn saith mlwydd oed, ac nid yw'n hollol ddibynadwy. Dylid ei ddefnyddio gyda gofal.

Nid oes unrhyw ystadegau am briodasau o'r un rhyw ar gael ar lefel awdurdod unedol. Ni chynhaliwyd y priodasau cyntaf o'r un rhyw tan 2014 ac mae'r data sydd gennym o 2011.

Tabl 4.1: statws priodasol a phartneriaeth sifil, 2011

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS103EW

	Bwrdeistref Sirol Conwy		Cymru	Cymru a Lloegr
	Nifer	%	%	%
Pob person 16 oed a throsodd	96,102		2,507,160	45,496,780
Sengl (erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil o'r un rhyw)	27,729	28.9%	33.5%	34.6%
Priod	46,379	48.3%	46.6%	46.6%
Mewn partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw	197	0.2%	0.2%	0.2%
Wedi gwahanu (ond yn gyfreithiol yn dal i fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw)	2,229	2.3%	2.2%	2.6%
Wedi ysgaru neu wedi bod mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol	10,215	10.6%	9.7%	9.0%
Yn weddw neu wedi colli partner sifil o'r un rhyw trwy farwolaeth	9,353	9.7%	7.9%	7.0%

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynhyrchu amcangyfrifon blynyddol o statws priodasol ar gyfer Cymru. Mae'r data diweddaraf (ar gyfer 2020) yn amcangyfrif:

- Bod 34.6% o'r boblogaeth yn sengl
- Bod 49.1% yn briod (gan gynnwys priodas o'r un rhyw)
- Bod 0.2% mewn partneriaeth sifil
- Bod 7.7% wedi ysgaru
- Bod 8.3% yn weddw

Rhan 5: beichiogrwydd a mamolaeth

Cynhyrchir data am enedigaethau, ffrwythlondeb a beichiogi bob blwyddyn. Maen nhw'n ystadegau cenedlaethol cadarn.

Mae'r ffigurau diweddaraf o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu y bydd 82% o ferched wedi rhoi genedigaeth i o leiaf un plentyn erbyn eu bod yn 45 oed¹.

Beichiogi

Nid yw ystadegau beichiogi a geni yn cyfrif fel yr un peth. Nid yw pob beichiogrwydd yn arwain at enedigaeth fyw. Mae rhai beichiogiad yn arwain at enedigaethau lluosog. Bydd data ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol hefyd yn cyfrif gwahanol bobl, gan efallai fod beichiogi yn 2020, er enghraifft, yn golygu na fydd genedigaeth tan y flwyddyn galendr ganlynol.

Fodd bynnag, mae data beichiogi yn rhoi'r amcangyfrif gorau sydd ar gael o nifer y merched a ddaeth yn feichiogi yn y flwyddyn honno.

Tabl 5.1: beichiogi, 2020

Ffynhonnell: vital statistics table VS1, ONS

	BS Conwy	Cymru	Cymru a Lloegr
Cyfanswm achosion o feichiogi	1,300	37,500	817,500
Cyfradd achosion o feichiogi	75.3	66.6	73.4

Cyfradd achosion o feichiogi = y 1,000 menyw o oedran 15 i 44.

Mamolaethau, genedigaethau a ffrwythlondeb

Yn 2020 ganwyd 950 o fabanod i breswylwyr Bwrdeistref Sirol Conwy.

Ar ôl cyfnod hir o leihau, mae lefelau ffrwythlondeb yn Lloegr a Chymru wedi dechrau cynyddu yn y 2000au cynnar. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd ddiwethaf, maent wedi dechrau gostwng eto ac mae'n bosibl bod y cyfnod o gynnydd wedi ei achosi gan newid diwylliannol gyda chenhedlaeth o ferched yn dewis peidio â chael plant tan eu 20au hwyr/30au cynnar.

Mae lefelau ffrwythlondeb BS Conwy wedi dilyn yn fras y tueddiad hwn, ac amcangyfrifir gyda'r patrwm ffrwythlondeb presennol y bydd y ddynes "arferol" yn cael 1.69 o blant yn ei bywyd. Mae hyn yn uwch na chyfartaleddau Cymru a Chymru & Lloegr, ond yn llawer is na'r lefel y bydd poblogaeth yn disodli ei hun yn naturiol (2.07 TFR).

Er gwaethaf cyfraddau ffrwythlondeb uwch ymysg merched o oedran beichiogi, mae'r gyfradd genedigaethau amrwd (cyfradd genedigaethau i'w cymharu â chyfanswm y

¹ Childbearing for women born in different years, England and Wales: 2020, ONS, Ionawr 2022 (ar gael yn Saesneg yn unig)

boblogaeth) ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn llawer is na'r cyfartaleddau cenedlaethol, o ganlyniad i'r strwythur oedran hŷn cyffredinol o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Tabl 5.1: beichiogiadau, genedigaethau a ffrwythlondeb, 2020

Fynhonnell: birth characteristics statistics, ONS

	BS Conwy	Cymru	Cymru a Lloegr
Cyfanswm mamolaethau	950	28,350	607,350
% mamolaethau gartref	2.0%	3.6%	2.4%
Cyfradd mamolaethau	60.2	52.8	56.9
Cyf. genedigaethau byw	950	28,650	613,950
Cymharebau gwyrw:benyw	1.06	1.05	1.05
Cyfradd enedigaeth amrwyd	8.1	9.0	10.3
GFR	56.7	50.9	55.1
TFR	1.69	1.47	1.58

Diffiniadau

Mamolaeth yw beichiogrwydd sy'n arwain at enedigaeth un neu fwy o blant, gan gynnwys plant marw-anedig.

Cyfradd mamolaethau = mamolaethau fesul 1,000 o fenywod 15-44 oed.

Cyfradd enedigaeth amrwyd = y 1000 preswylwyr.

Mae'r cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol (GFR – general fertility rate) yn nodi nifer y genedigaethau byw i bob 1,000 o fenywod 15-44 oed. Cyfrifwyd y GFR gan ddefnyddio amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn 2016.

Cyfartaledd y gyfradd ffrwythlondeb (TFR – total fertility rate) yw nifer cyfartalog y plant a fyddai'n cael eu geni i bob menyw os byddai menywod yn profi'r cyfraddau ffrwythlondeb penodol i'w hoedran yn y flwyddyn dan sylw drwy gydol eu cyfnod planta.

Rhan 6: ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol

Ethnigrwydd

Y ffynhonnell mwyaf cadarn o ddata ar gyfer ethnigrwydd ar lefel awdurdod lleol ydi Cyfrifiad 2011. Gwyn Prydeinig yw'r grŵp mwyaf o bell ac mae o gyfran debyg o fewn cyfanswm y boblogaeth i'r ffigwr cenedlaethol.

Mae dadansoddiad o grwpiau ethnig yn ôl oed ar gael ar gais.

Tabl 6.1: grwpiau ethnig (2011)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 tabl KS201EW

	Bwrdeistref Sirol Conwy		Cymru	Cymru a Lloegr
	Nifer	%	%	%
Pob person	115,228		3,063,456	56,075,912
Gwyn Prydeinig	109,911	95.4%	93.2%	80.5%
Sipsi neu Deithiwr	65	0.1%	0.1%	0.1%
Gwyddelig	2,573	2.2%	2.3%	5.3%
Gwyn arall	894	0.8%	1.0%	2.2%
Cymysg	876	0.8%	2.3%	7.5%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	199	0.2%	0.6%	3.3%
Du neu ddu Prydeinig	376	0.3%	0.4%	0.7%
Tsieineaidd	334	0.3%	0.5%	1.0%

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) yn cyhoeddi ffigyrau blynyddol sy'n amcangyfrif y nifer o bobl wyn a rhai sydd ddim yn wyn ym mhoblogaeth BS Conwy. Fodd bynnag, mae'r arolwg hwn yn seiliedig ar sampl ac felly'n amodol ar amrywioldeb samplo, yn enwedig ar lefel awdurdod lleol, ble mae maint y sampl yn fath. Mae pryderon ynglŷn â pha mor gadarn a chywir yw'r ystadegau hwn, ac felly argymhellwn ddefnyddio ffigyrau'r Cyfrifiad ar gyfer ethnigrwydd ar lefel awdurdod lleol.

Mae'n bosibl cael ffigyrau ar gyfer data lefel cenedlaethol oddi wrth APS, gan fod maint y sampl yn llawer mwy cadarn. Dim ond ar gyfer dau gategori mae'r APS yn 2020, roedd 5.6% o bobl yng Nghymru o gefndir heb fod yn un gwyn.

Ethnigrwydd mewn ysgolion

Mae ysgolion yn monitro ethnigrwydd (a chenedl mewn rhai achosion) eu disgyblion. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Conwy wedi cael eu grwpio yn y tabl isod gan ddefnyddio categorïau'r Cyfrifiad. Mae data hefyd wedi cael ei ddarparu ar gyfer 'gwledydd newydd eu derbyn i'r UE'.

Mae'r gyfran o ddisgyblion Prydeinig gwyn yn dipyn is na'r ffigwr Cyfrifiad 2011 ar gyfer y boblogaeth gyfan.

Mae'r ffigyrau hyn ar gyfer disgyblion ysgol a addysgwyd ym Mwrdeistref Sirol Conwy gan yr Awdurdod Addysg Lleol ac nid ydynt yn cynnwys plant sy'n byw yn y Sir ond sy'n cael eu haddysgu tu allan i BS Conwy, na phlant mewn ysgolion preifat. Mae'r ffigyrau hefyd yn cynnwys rhai plant sy'n byw tu allan i'r ardal ond sy'n cael eu haddysgu yn ysgolion AALL BS Conwy.

Tabl 6.2: grwpiau ethnig yn ysgolion Bwrdeistref Sirol

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

	2022		2011		2004	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Pob disgybl	15,742		16,012		15,496	
Gwyn Prydeinig	14,491	92.1%	15,181	94.8%	14,898	96.1%
Sipsi / Teithiwr	30	0.2%	12	0.1%	9	0.1%
Gwyn arall	355	2.3%	171	1.1%	156	1.0%
Cymysg	430	2.7%	267	1.7%	146	0.9%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	149	0.9%	137	0.9%	57	0.4%
Du neu ddu Prydeinig	38	0.2%	20	0.1%	16	0.1%
Tsieinaidd neu Tsieinaidd Prydeinig	54	0.3%	33	0.2%	26	0.2%
Grŵp ethnig arall	73	0.5%	35	0.2%	25	0.2%
Ddim yn gwybod	122	0.8%	156	1.0%	163	1.1%
*Gwledydd newydd eu derbyn i'r UE	128	0.8%	30	0.2%	-	-

*Mae'r is-grŵp yma hefyd wedi ei gynnwys yn y categori 'gwyn arall' ac mae'n cynnwys gwledydd yn ymuno â'r UE ers 2004: Croatia, Bwlgaria, Cyprus, Y Weriniaeth Siec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Malta, Gwlad Pwyl, Romania, Slofacia, Slofenia. Ni chasglwyd y data hwn yn 2004.

Hunaniaeth genedlaethol

